Ein partneriaid

WALES

# Llwybr Glan yr Afon Ystad Colby (Llwybr Oren)

Mae'r daith gerdded gylchol olygfaol hon yn troelli trwy goetir yr ystâd gan ddilyn cwrs y nant ar lawr y dyffryn. Mae'r llwybr yn dringo i fyny i olygfeydd arfordirol godidog sy'n ferw o flodau gwyllt yn y gwanwyn a dechrau'r haf, cyn esgyn yn araf trwy goetir uwchben glan yr afon.

## Canfod bywyd gwyllt

Mae'r gwanwyn yn dod â'r cyfle i weld Delor y Cnau neu Gnocell Fraith Fwyaf, gyda Gwybed Mai yn dawnsio dros ddŵr bywiog. Mae gloÿnnod byw cynnar fel y Brwmstan a'r Gwyn Blaen Oren yn dod i'r amlwg. Mae ymylon ac isdyfiant y coetiroedd yn llawn clychau'r gog. Cadwch lygad am gwningod ar ymylon tir fferm. Yn yr haf, gwrandewch am ganeuon melodig y Penlöynnod a galwad nodedig y Piod bach. Efallai y byddwch chi'n gweld brogaod a madfallod dŵr mewn ardaloedd coetir llaith. Mae ystlumod yn hela pryfed gyda'r cyfnos ar hyd llinell y coed a thros y dŵr. Yn yr hydref, chwiliwch am ffyngau, ar y coed a'r canghennau sydd wedi cwympo. Mae gwiwerod a mamaliaid bach yn casglu bwyd ar gyfer y gaeaf. Yn y gaeaf, mae'r coetiroedd yn dod yn fyw gyda heidiau o Ditwod Mawr, Titwod Tomos Las, a Thitwod Cynffon Hir yn bwydo, tra bod Adar Du, Robin Goch, a Drywod yn llenwi'r awyr â'u galwadau. Mae gwrychoedd fferm yn darparu ffynhonnell fwyd yn y gaeaf a lloches i'r Cesig y Ddrycin a'r Esgyll Cochion.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Gardd Goetir Colby, ger Llanrhath, Sir Benfro, SA67 8PP

Gweithgaredd: Cerdded

Cymedrol: Argymhellir esgidiau cerdded neu esgidiau cadarn ar gyfer y daith gerdded hon. Mae'r llwybr yn cynnwys tir anwastad, gyda dringfa raddol i fyny i dir fferm mwy gwastad. Gall llwybrau coetir fod yn fwdlyd. Mae yno greigiau rhydd a gwreiddiau coed agored. Mae glannau'r nant yn agored.  Mae glannau nentydd yn berygl i blant a dylid eu goruchwylio. Mae'r daith gerdded yn cynnwys 6 giât. 120m o esgyniad/120m o ddisgyniad. Pwynt Uchaf 180m o uchder .

Addas i gŵn: Croeso i gŵn dan reolaeth agos ar Ystâd Colby. Croeso i gŵn ar dennyn yng Ngardd Goedwig Colby. Cŵn ar dennyn yn unig drwy dir fferm (gweler yr arwyddion ar y gatiau wrth fynd i mewn i dir fferm).

Llwybr llawn: Milltiroedd: Miles: 3.2 (km: 5) (km: NaN)

## Cyfanswm y rhannau: 6

Man cychwyn: Maes parcio Uchaf Ystad Colby, cyf. grid: SN 15990 08175

1. O'r hysbysfwrdd ym mhen uchaf y maes parcio, ewch tua'r gorllewin i lawr trwy'r maes parcio a thrwy ardal goedwig fach nes i chi gyrraedd y ffordd. Trowch i'r dde i'r ffordd. Gwyliwch am draffig.
2. Ewch heibio i 'Rose Cottage' ar eich ochr dde, yna trowch yn syth i'r dde wrth y cyfeirbwynt oren, trwy'r giât fach i'r llwybr troed. Parhewch ar hyd y llwybr, gan ddilyn y nant.
3. Daliwch ati i fynd yn syth ymlaen trwy 2 giât yn olynol a dilynwch y cyfeirbwyntiau oren. Arhoswch wrth ochr y nant gan ddilyn y llwybr wrth iddo fforchio'n sydyn i fyny'r allt.
4. Wrth i'r llwybr ymuno â'r llwybr ceffylau mae yna esgyniad serth byr sy'n parhau o amgylch tro pedol sydyn. Ar ael y bryn chwiliwch am lwybr â giât i'r dde. Ewch i'r dde drwy'r llwybr â giât (dilynwch yr arwyddion Oren a Phinc). Ewch ymlaen i'r cyfeirbwynt pinc nesaf wrth gyffordd fforchog gyda llwybr â giât i ffwrdd i'ch chwith. Ewch i'r chwith yma drwy'r giât lai. Mae'r llwybr yn arwain at giât cae (1). Mae hon yn ardal lle caniateir cŵn ar dennyn. Arhoswch wrth ochr y gwrych ar eich ochr dde nes i chi gyrraedd cornel bellaf y cae. Ewch i'r dde drwy giât (2) ac yna'n syth i'r chwith, gan ddilyn ffin y gwrych i gornel bellaf y cae. Ewch i'r chwith drwy'r giât (3). Daliwch ati i symud yn syth ymlaen gyda'r gwrych ar eich ochr dde nes i chi fynd trwy 2 giât yn olynol gyda chyfeirbwyntiau pinc/oren yn arwain at lwybr fferm.

Hyd: 1 awr 30 munud

## Tirwedd

Mae'r dirwedd yn amrywio. Er bod rhai llwybrau ar dir fferm gwastad, mae gan lawer o ardaloedd yn y coetir dir anwastad, maent yn fwdlyd, ac maent yn cynnwys cerrig rhydd a gwreiddiau coed agored. Bydd y llwybrau'n llithrig mewn tywydd gwlyb neu aeafol. Cymerwch ofal gyda'ch camau a gwisgwch esgidiau addas. Mae glannau'r nant yn agored, a dylid goruchwylio plant.

Manylion uchder: Cyfanswm esgyniad/disgyniad: 120m. Pwynt uchaf: 180m

5. Ar ôl mynd trwy'r giât, cymerwch y llwybr fferm llydan ar y dde tuag at 'Fferm Craig y Borian'. Wrth y cyfeirbwynt oren, cyn cyrraedd y fferm, trowch yn ôl ar y trac isaf. Parhewch tuag i lawr wrth ddyffryn yr afon am tua 25 munud.
6. Trowch i'r chwith i'r ffordd darmac. Ewch heibio i 'Rose Cottage' ar eich chwith (bwthyn gwyliau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a Thŷ Colby ar eich dde. Ychydig ar ôl Tŷ Colby, fe welwch fynedfa ar eich dde sy'n arwain at yr Ystafell De, y toiledau, yr Oriel a'r Siop Lyfrau. Rydych chi nawr yng Ngerddi Coetir Colby. I ddychwelyd i'r maes parcio uchaf, cymerwch y llwybr gyferbyn â mynedfa'r maes parcio isaf.

Man gorffen: Maes parcio Ystad Colby, cyf. grid: SN 15990 08175